# Ymchwilio i Ddeunyddiau Crai

## Canllawiau i Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Darganfod y deunyddiau crai a'r diwydiannau a oedd yn gweithredu o amgylch y gamlas
- Deall yr effaith a gafodd y gamlas ar y diwydiannau
- Archwilio'r gwahanol ddeunyddiau yn y gorffennol a heddiw

### Adnoddau

- Ffeiliau Ffeithiau deunydd crai: Glo, Llechi, Mwyn Haearn, Tywodfaen, Calchfaen, Clai
- Map yn dangos y prif ddiwydiannau yn Nyffryn Dyfrdwy



### Cyfarwyddiadau Gweithgaredd

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i un o'r deunyddiau crai a geir ger y gamlas, gan ddefnyddio'r ffeiliau ffeithiau a ategir gan eu hymchwil eu hunain. Byddant yn lleoli ble y deuir o hyd iddo, yn darganfod ei hanes yn yr ardal a pha effaith a gafodd adeiladu'r gamlas arno. Yna byddant yn creu cyflwyniad am eu deunydd crai ac yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth.

### Syniadau Gweithgareddau Cychwynnol:



Trafodwch beth yw deunyddiau crai a pha rai sydd i'w cael yn yr ardal leol.
A allwch chi ddod o hyd i enghreifftiau o sut y cawsant eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, ar adeilad yr ysgol neu adeiladau lleol eraill?

### Syniadau Gweithgareddau Eraill:



Crëwch a dyluniwch gynnyrch gan ddefnyddio'ch deunydd crai. Dewch o hyd i hysbysebion Fictoraidd fel ysbrydoliaeth. Gallwch chi fod mor ddyfeisgar ag y dymunwch.
Meddyliwch am:

- Sut fydd yn edrych? Gwnewch ddarluniadau.
- Beth fyddwch chi'n ei alw?
- I bwy fyddwch chi'n ei werthu?
- Beth sy'n arbennig am eich cynnyrch? Dylech gynnwys gwybodaeth am y deunydd crai, a defnyddio hyn fel rhagoriaeth.

Ysgrifennwch neu lluniwch hysbyseb ar gyfer eich cynnyrch fel petai ar gyfer papur newydd / cylchgrawn Fictoraidd.

### Briff ar gyfer Dysgwyr:



Dewiswch un deunydd crai, yna darllenwch y ffeil ffeithiau ac ymchwiliwch ymhellach am y deunydd o'ch dewis.
Defnyddiwch y Ffeil Ffeithiau, eich ymchwil eich hun, ffotograffau a lluniadau i greu cyflwyniad i weddill eich dosbarth.

**Dylech gynnwys:**

- Hanes byr o'ch deunydd crai a'r diwydiant cysylltiedig
- Lleoliadau eich deunydd crai o amgylch y gamlas (Gallai'r Powerpoint Mapio 'Sut mae Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte wedi newid dros amser?' helpu)
- 'Sut mae Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte wedi newid dros amser?
- Sut mae Safle Treftadaeth y Byd wedi newid dros amser?
- Defnyddiau eich deunydd crai
- Ffotograffau neu ddarluniadau i ddangos eich deunydd crai a'i gynnyrch terfynol
- Eglurwch yr effaith a gafodd adeiladu Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte ar eich diwydiant

Gallwch adrodd yn ôl ar eich canfyddiadau mewn PowerPoint, rhith-daith neu arddangosfa.

# Map yn dangos y prif ddiwydiannau yn Nyffryn Dyfrdwy



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Ffeil Ffeithiau Clai 1

## Beth yw Clai?


Clay Siim Sepp - Own work, CC BY-SA 3.0

Math o fwd yw clai sydd i'w weld yn agos at afonydd fel arfer. Mae fel arfer ger yr wyneb fel y gellir ei gloddio mewn pyllau agored.

**FFAITH:** Mae'n cynnwys gronynnau bach iawn sy'n glynu wrth ei gilydd pan fyddant yn wlyb. Ni all dŵr basio drwy glai gwlyb.


## Pam ei fod yn ddefnyddiol?

Fe'i defnyddiwyd ers miloedd o flynyddoedd oherwydd ei fod yn feddal ac yn ludiog pan mae'n wlyb a gellir ei fowldio i wahanol siapiau ond yn pobi'n galed pan gaiff ei gynhesu mewn popty poeth iawn o'r enw odyn.

**FFAITH:** Mae'r clai a geir ger y gamlas yn troi'n lliw coch cyfoethog o'r enw terracotta pan gaiff ei bobi.

## Ar gyfer beth y defnyddiwyd clai?

Yn ogystal â chael ei ddefnyddio i wneud brics, teils a chrochenwaith, defnyddiwyd clai hefyd wrth adeiladu camlesi - ar gyfer rhoi leinin ar y gwaelod i gadw'r dŵr i mewn.



**FFAITH:** Mae'n debyg bod gwartheg wedi cael eu defnyddio i sathru'r clai ar waelod y gamlas i wasgu unrhyw aer allan a gwneud sêl dda fel nad oedd y dŵr yn gollwng.

## Pa ddiwydiannau lleol a ddefnyddiodd glai?

Sefydlodd J.C. Edwards dri gwaith brics a theils yn y 19eg ganrif i wneud teils a brics a ddefnyddiwyd ledled Prydain. Agorwyd rhai eraill yn yr ardal gyfagos hefyd.

**FFAITH:** Codwyd Adeilad Pierhead Doc Bute mawreddog yng Nghaerdydd ym 1896 gan ddefnyddio brics J.C. Edwards.

## Beth oedd effaith y Ddyfrbont a'r Gamlas ar y diwydiannau clai?

Roedd tramffordd yn cysylltu gwaith brics Pen-y-Bont â'r gamlas ym Mhentre gan alluogi i'r brics a'r teils gael eu cludo pellteroedd maith yn rhad, nes i'r rheilffordd eu disodli.


Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Ffeil Ffeithiau Clai 2

## Enghreifftiau o ddefnyddiau clai



**Teils gwydrog J.C. Edwards**
Drwy garedigrwydd Amgueddfa Cefn Mawr © David Heke



**Teils llawr melyngoch**



**Tai brics yn Acrefair**
© Andrew Deathe



**Adeilad Pierhead Doc Bute yng Nghaerdydd**
© Lilo Lil/Eiona Roberts

## Darluniau o'r diwydiant



Ffilm CGI o ddiwydiant Bwcle ar ddechrau'r 20fed ganrif (© The Buckley Society)



© Amgueddfa Llangollen Museum

Gweithwyr yng ngwaith brics Tref-y-Nant

**Dolenni i adnoddau eraill:**

www.

- Gwneud brics â llaw
- Sut caiff brics eu gwneud heddiw?


**Find out:**

- A allwch chi ddod o hyd i unrhyw waith brics ar yr hen fap?
- Beth arall y defnyddiwyd clai ar ei gyfer yn y 19eg ganrif?
- Beth y defnyddir clai ar ei gyfer heddiw?

# Ffeil Ffeithiau Haearn 1

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

## Beth yw Haearn?


© Jstuby via Wikimedia Commons

Metel yw haearn. Mae i'w gael yn naturiol mewn haearnfaen a gellir ei dynnu o'r graig drwy ei gymysgu â chalchfaen a'i losgi ar dymheredd uchel iawn gan ddefnyddio glo.

**FFAITH:** Mae haearnfaen yn graig gyffredin o amgylch Cefn Mawr. Mae'n edrych yn goch rhydlyd pan fydd yn agored i'r aer ac mae i'w weld mewn waliau ac adeiladau.

## Pam ei fod yn ddefnyddiol?

Mae haearn yn galed iawn ac yn para am amser hir. Gellir ei gynhesu mewn ffwrnais glo a'i siapio'n wahanol offer a rhannau ar gyfer peiriannau.

**FFAITH:** Pobl gynhanesyddol oedd y cyntaf i ddefnyddio haearn ym Mhrydain tua 3000 o flynyddoedd yn ôl.

## Ar gyfer beth y defnyddiwyd haearn?

Defnyddiwyd haearn i wneud offer, peiriannau, adeiladau, llongau, trenau stêm; unrhyw beth yr oedd angen iddo fod yn gryf ac i bara am amser hir. Roedd pobl hefyd yn ei ddefnyddio yn eu cartrefi ar gyfer poptai a photiau coginio.

**FFAITH:** Roedd gallu gwneud haearn mewn symiau mawr yn caniatáu i dechnolegau newydd ddatblygu yn y cyfnod Fictoraidd, megis peiriannau â phŵer stêm.

## Pa ddiwydiannau a ddefnyddiodd haearn?

Roedd nifer o weithiau haearn yn yr ardal gan gynnwys Gwaith Haearn Plas Kynaston William Hazledine, gwaith haearn Exuperius Pickering lle gwnaed y cysylltiadau ar gyfer Pont Gadwyn, a Gwaith Haearn Acrefair.

**FFAITH:** Cynhyrchwyd rhannau haearn bwrw y cafn ar gyfer Dyfrbont Pontcysyllte yng Ngwaith Haearn Plas Kynaston.

## Beth oedd effaith y Ddyfrbont a'r Gamlas ar y diwydiannau haearn?


Galluogodd y gamlas y cynhyrchion haearn gorffenedig i gael eu cludo'n rhad ar gyfer eu gwerthu ymhellach i ffwrdd. O ganlyniad, agorodd gwaith haearn newydd, ynghyd â mwy o chwareli calchfaen a phyllau glo, ac ehangodd y rhai presennol.

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Ffeil Ffeithiau Haearn 2

## Enghreifftiau o ddefnyddiau haearn



Dyfrbont Pontcysyllte



Pont Waterloo, Betws-y-Coed

© Creative Commons, Ray Jones



Pont Haearn, Swydd Amwythig

© Creative Commons



Rhaeadr y Bedol

© Creative Commons, Ian Capper

## Darluniau o'r diwydiant



Ynysfach Ironworks, Merthyr Tydfil 3D animated reconstruction



© Science Museum

Coalbrookdale gyda'r nos.
Ölgemälde von Philipp Jakob Loutherbourg 1801

Gwaith Haearn Ynysfach, Merthyr Tudful



© Amgueddfa Cymru National Museum of Wales

### Dolenni i adnoddau eraill:

www.

- Gwneud Haearn
- Chain Bridge

### Dewch o hyd i'r canlynol:

- A allwch chi ddod o hyd i unrhyw waith haearn ar yr hen fap? Awgrym: edrychwch am efail yn agystal â gwaith haearn
- Pa dechnolegau newydd a ddyfeisiwyd a oedd yn defnyddio haearn?
- Pa ddiwydiannau eraill a oedd yn yr ardal?
- Beth yw defnydd haearn heddiw?

# Ffeil Ffeithiau Calchfaen 1

## Beth yw Calchfaen?



Craig y caiff ei chwarela allan o'r ddaear yw calchfaen. Mae'n cynnwys gweddillion creaduriaid y môr a fu farw filiynau o flynyddoedd yn ôl.

**FFAITH:** Weithiau gallwch chi weld ffosiliau creaduriaid y môr yn y garreg.

## Pam ei fod yn ddefnyddiol?

Mae calchfaen yn ddeunydd adeiladu da a gellir ei ddefnyddio fel blociau cerrig neu mewn talpiau llai. Pan gaiff ei gynhesu â glo mewn popty poeth o'r enw odyn, mae'n troi'n bowdr gwyn o'r enw calch cyflym, y gellir ei ddefnyddio ym maes ffermio a diwydiant.

**FFAITH:** Y Rhufeiniaid a ddefnyddiodd calchfaen i ddechrau i wneud concrit a sment.

## Ar gyfer beth y defnyddiwyd Calchfaen?

Defnyddiwyd calchfaen wrth gynhyrchu haearn, fel carreg i adeiladu ac ar gyfer gwneud ffyrdd. Defnyddiwyd calch cyflym mewn plastr a sment ar gyfer adeiladu neu gallai gael ei wasgaru ar gaeau fel gwrtaith.

**FFAITH:** Adeiladwyd Pyramid Mawr Giza o galchfaen.

## Pa ddiwydiannau lleol a ddefnyddiodd Galchfaen?

Byddai rhai chwareli yn cynhyrchu calchfaen ar gyfer gwaith haearn mewn gwaith haearn lleol. Byddai eraill yn cynhyrchu calch cyflym mewn odynau, ar gyfer amaethyddiaeth. Roedd odynau calch yn Froncysyllte wrth ymyl y gamlas ond roedd yr odynau yn Nhrefor Uchaf i fyny'r bryn, ger y chwareli.

**FFAITH:** Cludwyd y calchfaen o chwareli Froncysyllte a'r calch cyflym o Trefor Uchaf i lawr i'r gamlas ar dramffyrdd ar ogwydd (gweler gweithgaredd Her Ar Ogwydd).

## Beth oedd effaith y Ddyfrbont a'r Gamlas ar y diwydiannau Calchfaen?

Tyfodd chwarela calchfaen wrth i'r gamlas alluogi cludo nwyddau haearn a wnaed gan ddefnyddio'r calchfaen, y calch cyflym a'r garreg ei hun i gael eu cludo'n hawdd ac yn rhad i farchnadoedd newydd.

# Ffeil Ffeithiau Calchfaen 2

## Enghreifftiau o galchfaen yn cael ei ddefnyddio




Pyramidiau Mawr



Eglwys Rhosesmor



Ffont yn eglwys Llaneurgain




Arwynebau gwaith mewn ceginau © Jo Danson

### Dewch o hyd i'r canlynol:

- A allwch chi ddod o hyd i unrhyw chwareli neu odynau calch ar yr hen fap?
- Beth arall y defnyddiwyd calchfaen ar ei gyfer yn y 19eg ganrif?
- Ar gyfer beth y defnyddir calchfaen heddiw?
- Pa ddiwydiannau eraill a oedd yn yr ardal?


## Darluniau o'r diwydiant

Odynau calch yn Froncysyllte



© Andrew Deathe

Gwaith calch yn Froncysyllte



© Neil Hayward

Glanfa galch Trefor



© North East Wales Archives (Ruthin)

Gweithwyr calch



© Neil Hayward



### Dolenni i adnoddau eraill:

www.

**Gwyliwch:** CGI of Limekilns at Waen y Brodlas i ddangos sut y gwneir calch cyflym.

# Ffeil Ffeithiau Tywodfaen 1

## Beth yw tywodfaen?



Yn wreiddiol, gwely tywodlyd afon hynafol filiynau o flynyddoedd yn ôl oedd tywodfaen. Wrth i fwy o haenau gronni, mae'r pwysau'n achosi pwysedd a gwres sy'n troi'r tywod yn graig dros filiynau o flynyddoedd.

**FFAITH:** Mae pentref Cefn Mawr ger Dyfrbont Pontcysyllte wedi'i adeiladu ar fryn o dywodfaen.

## Pam ei fod yn ddefnyddiol?

Mae tywodfaen yn ddeunydd adeiladu defnyddiol gan ei fod yn gryf, yn ddeniadol ac yn para am amser hir.

**FFAITH:** Symudodd y tîm pêl-droed lleol, Cefn Druids, eu tir i 'The Rock' yn 2010 ac maen nhw'n chwarae o dan hen glogwyni'r chwarel.

## Ar gyfer beth y defnyddiwyd tywodfaen?

Dewiswyd tywodfaen Cefn Mawr i adeiladu'r pileri cynhaliol ar gyfer Dyfrbont Pontcysyllte gan ei fod yn para'n hir iawn a gellid ei dorri'n union i gyd-fynd â'r dyluniad gofalus.

**FFAITH:** Roedd Carreg Cefn mor dda ar gyfer adeiladu nes iddo gael ei ddefnyddio i godi adeiladau enwog yn Lerpwl, fel 'Walker Art Gallery' a 'St George's Hall'.

## Pa ddiwydiannau a oedd yn defnyddio tywodfaen?



Defnyddiwyd tywodfaen yn y diwydiant adeiladu. Roedd llawer o chwareli o amgylch Cefn Mawr. Chwarel Tan y Graig yw'r unig un sy'n dal i weithio heddiw.

**FFAITH:** Chwarelwyd y tywodfaen allan o'r ddaear â llaw gan ddefnyddio pigau, cynion a lletemau. Gallwch weld marciau cyn o hyd ar rywfaint o'r garreg yn Tan y Graig, a wnaed gan weithwyr y chwarel dros ganrif yn ôl.

## Beth oedd effaith y Ddyfrbont a'r Gamlas ar y diwydiannau tywodfaen?

Roedd defnyddio llawer iawn o'r garreg wrth adeiladu Dyfrbontydd y Waun a Phontcysyllte yn hwb i fusnes y chwareli lleol. Galluogodd y gamlas i'r tywodfaen gael ei gludo yn haws ac yn rhatach i brosiectau adeiladu eraill ymhellach i ffwrdd.

# Ffeil Ffeithiau Tywodfaen 2

## Enghreifftiau o dywodfaen yn cael ei ddefnyddio




**St George's Hall Lerpwl**
© Creative Commons, Tony Hisgett



**Dyfrbont a Thraphont y Waun**
@ Canal & River Trust



**Eglwys Sant Silyn**
© Creative Commons, Jeff Buck



**Blociau tywodfaen, Dyfrbont Pontcysyllte**
© Andrew Deathe

## Darluniau o'r diwydiant




Gweithwyr yn Chwarel Chatham's, Cefn Mawr

Chwarel Tan y Graig, Cefn Mawr







Marciau cŷn yn y garreg yn Tan y Graig

### Dolenni i adnoddau eraill:

www.

- Cefn Mawr Heritage Trail


### Dewch o hyd i'r canlyno:

- A allwch chi ddod o hyd i unrhyw chwareli neu odynau calch ar yr hen fap?
- Beth arall y defnyddiwyd tywodfaen ar ei gyfer yn y 19eg ganrif?
- Sut y cloddiwyd am dywodfaen yn y ddaear?
- Ar gyfer beth y defnyddir tywodfaen heddiw?

# Ffeil Ffeithiau Llechi 1

Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

## Beth yw Llechen?


© Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

Carreg a ffurfiwyd o fwynau a oedd yn wreiddiol yn fwd ar waelod môr hynafol yw llechen. Dros gannoedd o filiynau o flynyddoedd, mae gwres a gwasgedd wedi gwasgu'r mwd yn haenau caled.

**FFAITH:** Mae Mynyddoedd Berwyn a Llantysilio uwchben Dyffryn Dyfrdwy a Dyffryn Ceiriog yn ffynonellau llechi da.

## Pam ei fod yn ddefnyddiol?

Mae llechi yn wydn. Mae'n cynnwys gwahanol haenau sy'n galluogi iddo gael ei rannu'n ddarnau o wahanol drwch gydag arwyneb gwastad iawn.

**FFAITH:** Defnyddiwyd llechi o chwareli Llantysilio mewn slabiau mawr yn hytrach nag fel llechi tenau oherwydd nad oedd yn hollti'n fân.

## Ar gyfer beth y defnyddiwyd Llechi?

Gan y gellir torri llechi yn ddarnau gwastad iawn, mae'n ddefnyddiol ar gyfer teils to, slabiau ar gyfer byrddau biliards, lloriau cerrig bedd a llechi ysgrifennu. Cafodd ei ddefnyddio hefyd ar gyfer adeiladu waliau.

**FFAITH:** Roedd cerrig beddi llawer o bobl leol wedi'u gwneud o slabiau llechi o'r chwareli lleol.

## Pa ddiwydiannau llechi lleol oedd yna?

Moel y Faen oedd y mwyaf o sawl chwarel ar Fwlch y Bedol a wasanaethodd y gwaith llechi ym Mhentrefelin. Yn y 1880au, roedd y chwarel yn cyflogi bron i 200 o ddynion. Roedd chwareli llechi yng Nglyn Ceiriog hefyd.

**FFAITH:** Cludwyd slabiau llechi ar dryciau a dynnwyd gan geffylau ar hyd tramffordd a oedd yn cysylltu'r chwareli. Yna bydden nhw'n cael eu gostwng i lawr llethr hir i Bentrefelin i'w torri cyn eu llwytho ar gychod camlas i'w gwerthu mewn marchnadoedd ymhellach i ffwrdd.

## Beth oedd effaith y Ddyfrbont a'r Gamlas ar y diwydiannau Llechi?

Agorodd dyfodiad y gamlas farchnadoedd newydd ar gyfer y chwareli, mor bell i ffwrdd â Llundain. Gallai cychod camlas gario llwythi trymach na throliau a theithio'n gynt i'r dinasoedd diwydiannol ffyniannus.

# Ffeil Ffeithiau Llechi 2

## Enghreifftiau o sut y cafodd ei ddefnyddio



**Gravestones**
© Andrew Deathe



**Cloc ar dŵr Eglwys Sant Collen** © St Collen's Church




**Llechi toi**



**Bwrdd biliards**

## Darluniau o'r diwydiant

Creigwyr yn torri llechi yn wyneb y chwarel


© Anne Robinson

Torri slabiau yn y felin


© Anne Robinson

© Anne Robinson


© berwynslate.com


© RCAHMW

### Dolenni i adnoddau eraill:

- Amgueddfa Llangollen: mwyngloddio a chwarela
- Llechi Berwyn

### Dewch o hyd i'r canlyno:

- A allwch chi ddod o hyd i unrhyw chwareli ar yr hen fap?
- A oes unrhyw chwareli llechi sy'n weithredol heddiw?
- Ar gyfer beth y defnyddir llechi heddiw?

# Ffeil Ffeithiau Glo 1

## Beth yw Glo?



Craig ddu, sgleiniog yw glo a ffurfiwyd o weddillion planhigion cors a oedd yn byw dros 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

**FFAITH:** Roedd yna lawer o glofeydd (pyllau glo) ger Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte a oedd yn cloddio'r glo cyfoethog, yn aml yn ddwfn o dan y ddaear.

## Pam ei fod yn ddefnyddiol?

Roedd glo yn danwydd pwysig gan ei fod yn llosgi ar dymheredd uchel iawn ac felly'n taflu llawer o wres.

**FFAITH:** Gall efail glo losgi ar bron i 2000 gradd celsiws!

## Ar gyfer beth y defnyddiwyd glo?

Defnyddiwyd glo mewn llawer o ddiwydiannau. Roedd yn pweru peiriannau ac yn cael ei ddefnyddio fel tanwydd mewn gefeiliau a ffwrneisi i doddi metel i wneud offer a rhannau ar gyfer adeiladau, pontydd ac ati. Roedd pobl hefyd yn ei ddefnyddio yn eu cartrefi ar gyfer gwresogi a choginio.

**FFAITH:** Roedd y pyllau glo yn gweithredu 24 awr y dydd a, hyd 1842, bydden nhw'n cyflogi plant mor ifanc â phum mlwydd oed.



## Pa ddiwydiannau a oedd yn defnyddio glo?

Ffwrneisi a gefeiliau tanwydd glo lleol mewn gwaith haearn fel Plas Kynaston, odynau calch yn Nhrefor a Froncysyllte a llawer o ddiwydiannau lleol eraill.

**FFAITH:** Weithiau roedd y pyllau glo fwy na milltir i ffwrdd o'r gamlas ac roedd yn rhaid iddynt ddefnyddio tramffyrdd neu reilffyrdd a dynnwyd gan geffylau i gael y llwythi trwm o lo i'r cychod ar y gamlas.

## Beth oedd effaith y Ddyfrbont a'r Gamlas ar y diwydiannau glo?

Defnyddiodd rhai o'r pyllau glo yng Nghefn Mawr a'r Waun y gamlas i gludo eu glo i ddinasoedd a threfi yng ngogledd-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Byddai cludiant rhatach y gamlas yn helpu i gadw pris glo yn isel, a oedd yn dda i'r diwydiannau a oedd yn defnyddio glo.

# Ffeil Ffeithiau Glo 2


## Enghreifftiau o sut y cafodd ei ddefnyddio



Glo ar raw, yn barod i'w losgi © Andrew Deathe



Tân glo




Ffwrnais chwyth yn defnyddio glo



Efail Gof

© Stewart Mackellar

## Darluniau o'r diwydiant



© NWMAT

Glofa Plas Power



Canal & River Trust

Cychod glo yng Nglofa Hednesford, Swydd Stafford

### Dolenni i adnoddau eraill:

- Sut brofiad ydoedd i'r plant a weithiodd yn y pyllau glo?
- Cyfuniad Ffrwydrol: Codi Glo yng Ngogledd Cymru

### Dewch o hyd i'r canlynol:

- A allwch chi ddod o hyd i unrhyw lofeydd neu siafftiau mwynglawdd ar yr hen fap?
- Beth arall y defnyddiwyd glo ar ei gyfer yn y 19eg ganrif?
- Pa dechnolegau newydd a ddyfeisiwyd a oedd yn defnyddio glo?
- Ar gyfer beth y defnyddir glo heddiw?